

## HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANAU NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 21 Tachwedd 2017  
Tabled on 21 November 2017

### Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) Abolition of the Right to Buy and Associated Rights (Wales) Bill

**Bethan Jenkins**

**15**

Section 8, page 7, line 10, leave out subsection (5) and insert –

- ( ) Subsection [second sub-section to be inserted by this amendment] applies where, after the day on which this section comes into force –
- (a) a person offers to let a dwelling in Wales under a secure tenancy or an introductory tenancy, or
  - (b) a person who is a registered social landlord or a private registered provider of social housing offers to let a dwelling in Wales under an assured tenancy (other than a long tenancy).
- ( ) The person making the offer (the “prospective landlord”) must, as soon as is reasonably practicable after the offer is made, provide the prospective tenant with such of the information published by the Welsh Ministers under subsection (1) as the prospective landlord considers relevant to the prospective tenant (which must, in particular, include the information mentioned in subsection (3)(a) and (b)).’.

Adran 8, tudalen 7, llinell 10, hepgorer is-adran (5) a mewnosoder –

- ( ) Mae is-adran [yr ail is-adran i gael ei mewnosod gan y gwelliant hwn] yn gymwys pan fo, ar ôl y diwrnod y mae'r adran hon yn dod i rym –
- (a) person yn cynnig gosod annedd yng Nghymru o dan denantiaeth ddiogel neu denantiaeth ragarweiniol, neu
  - (b) person sy'n landlord cymdeithasol cofrestredig neu'n ddarparwr preifat cofrestredig tai cymdeithasol yn cynnig gosod annedd yng Nghymru o dan denantiaeth sicr (ac eithrio tenantiaeth hir).



- ( ) Rhaid i'r person sy'n gwneud y cynnig (y "darpar landlord"), cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r cynnig gael ei wneud, ddarparu i'r darpar denant hynny o'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (1) y mae'r darpar landlord yn ystyried ei bod yn berthnasol i'r darpar denant (y mae'n rhaid iddi, yn benodol, gynnwys yr wybodaeth a grybwyllir yn is-adran (3)(a) a (b)).'

**Bethan Jenkins**

**16**

Section 8, page 7, after line 18, insert—

- '() In making arrangements for the purposes of providing information under subsections (4) (a) and (5), a landlord or prospective landlord must—  
(a) have regard to the likely needs and characteristics, in respect of the provision of information, of persons to whom the information in question is to be provided, and  
(b) consider whether, having regard to those needs and characteristics, it is appropriate to provide any of the information to any of those persons otherwise than in the way in which it would normally be provided.'

Adran 8, tudalen 7, ar ôl llinell 19, mewnosoder—

- '() Wrth wneud trefniadau at ddibenion darparu gwybodaeth o dan is-adrannau (4)(a) a (5), rhaid i landlord neu ddarpar landlord—  
(a) rhoi sylw i anghenion a nodweddion tebygol, mewn cysylltiad â darparu gwybodaeth, y personau y mae'r wybodaeth o dan sylw i'w darparu iddynt, a  
(b) ystyried a yw'n briodol, gan roi sylw i'r anghenion a'r nodweddion hynny, darparu'r wybodaeth, neu unrhyw ran ohoni, i unrhyw un neu ragor o'r personau hynny mewn modd sy'n wahanol i'r modd y byddai'n cael ei darparu fel arfer.'

